Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Darren Millar AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 11 Medi 2014 |
| Ein cyf: | HVT/2207/mjb |
| Tudalen: | 1 o 2 |

Annwyl Darren,

**GWASANAETH AWYR ODDI MEWN I GYMRU - CAERDYDD I YNYS MÔN**

Mewn llythyr gan y clerc, dyddiedig 2 Medi 2014, gofynnwyd am fy nghyngor ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad interim diweddar y Pwyllgor ar y *Gwasanaeth Awyr Oddi Mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn*. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn derbyn wyth o'r naw argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor a'i bod yn derbyn yr argymhelliad arall mewn egwyddor.

At ei gilydd, ymddengys fod ymateb Llywodraeth Cymru yn foddhaol ac, yn ei hymateb i argymhelliad wyth, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhagor o fanylion am yr amserlen ar gyfer y broses gaffael ar gyfer contract newydd y Gwasanaeth Awyr. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sy'n sail i benderfyniad Llywodraeth Cymru i barhau â chontract newydd ar gyfer y Gwasanaeth Awyr yn parhau i fod yn aneglur ar hyn o bryd.

Drwy dderbyn argymhelliad chwech mewn egwyddor, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn disgwyl cyhoeddi crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad a gynhaliwyd ar y contract gwasanaeth awyr ar ôl cwblhau'r ymarfer caffael presennol ym mis Rhagfyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi na fydd gwybodaeth nad yw'n addas i'w chyhoeddi o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi. Yn dibynnu ar i ba raddau y mae gwybodaeth yn cael ei chadw yn ôl, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried ar bŵer ei hun i wahodd tystiolaeth ysgrifenedig, fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Er na chaiff ei nodi'n glir yn ymateb Llywodraeth Cymru, yr wyf yn tybio bod Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu, yn y tymor byr, peidio â chyhoeddi gwybodaeth a allai ddylanwadu'n ormodol ar y broses gaffael. Fodd bynnag, gall y Pwyllgor ofyn yn rhesymol pam y byddai pryder o'r fath o reidrwydd yn berthnasol i'r cylch gorchwyl ar gyfer gwaith adolygu Arup, sef rhywbeth y mae'r Pwyllgor wedi'i ofyn o'r blaen.

Mae rhai meysydd eraill lle y gallai ymateb Llywodraeth Cymru fod wedi cynnwys rhagor o fanylion, er enghraifft ynglŷn â'r opsiynau sydd, yn ymarferol, yn cael eu hystyried er mwyn gwneud y gorau o fanteision a chyfleoedd y Gwasanaeth Awyr yn y dyfodol

(argymhelliad naw). Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei hymrwymiad i ymchwilio i'r holl gyfleoedd posibl a'u hadolygu'n barhaus o fewn cyfyngiadau a rheolau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Deilliodd argymhelliad naw o sylwadau'r Pwyllgor y dylid rhoi ystyriaeth i amserlennu teithiau ychwanegol i leoliadau ychwanegol yn ystod y dydd, ond gwnaeth y Pwyllgor sylwadau hefyd ar faterion yn ymwneud â maint yr awyren a'r defnydd o RAF y Fali fel y maes awyr yng Ngogledd Cymru. Yn yr hysbysiad contract a gyhoeddwyd ar gyfer y gwasanaeth newydd dywedir yn syml fod Gweinidogion Cymru yn ceisio sicrhau contract 4 blynedd newydd ar gyfer darparu gwasanaeth awyr rheolaidd rhwng gogledd a de Cymru. Bydd y gwasanaeth yn darparu o leiaf ddwy daith uniongyrchol bob dydd a bydd yn cael ei weithredu fel Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus o dan Reoliadau 1008/2008 yr Undeb Ewropeaidd. Nid wyf wedi gweld y dogfennau gwahoddiad i dendro manylach a baratowyd gan Lywodraeth Cymru.

Nododd y Pwyllgor yn ei adroddiad interim y byddai'n debygol o drafod y mater hwn eto pan fyddai bwriadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaeth Awyr yn glir ac ar ôl cwblhau unrhyw broses dendro ar gyfer contract newydd y Gwasanaeth Awyr. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried trefnu sesiwn dystiolaeth ddilynol fer gyda Llywodraeth Cymru yn nes ymlaen yn nhymor yr hydref neu'n gynnar yn 2015. Mewn sesiwn o'r fath gellid trafod y materion yr wyf wedi tynnu sylw atynt uchod yn ogystal â chael rhagor o dystiolaeth am sut mae ymrwymiadau eraill Llywodraeth Cymru mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor wedi cael eu rhoi ar waith yn ymarferol mewn unrhyw gontract newydd.

Yn gywir,



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**